Ardal 1 Abergele – Nodiadau Cyfarfod Rhanddeiliaid a Enwebwyd
18 Tachwedd 2009

Sylwer mai ond cynghorwyr o ward Pentre Mawr ac Abergele / Pensarn a wahoddwyd i'r cyfarfod

Presennol: Geraint James (GJ) (Pennaeth Statudol Gwasanaethau Addysg)
Dilwyn Price (DP) (Pennaeth Gwasanaethau Gwella Ysgol)
Emma Bayliss (EB) (Rheolwraig Cynllun)
Gareth Thomas (GT) (TJB)
David Batten (DB) (TJB)
Cynan Jones (CJ) (TJB)

Arsylwyr: Cyng S. Rowlands

1. Rhagymadrodd

Darparodd DB ragymadrodd i'r cyfarfod ac esboniodd beth fyddai'n ei gynnwys gan gynnwys yr elfen gweithdy.

2. Cyflwyniad

Rhoddodd GJ gyflwyniad ar ddatblygiad y cynllun hyd yma a datblygiad y ddogfen Ardaloedd i'w Datblygu. Dywedwyd bod y ddwy ysgol wedi cael adroddiadau arolwg hynod a llongyfarchodd o hwy. Dywedodd nad oedd tudalen 10 y ddogfen Ardaloedd i'w Hadolygu yn feirniadaeth ar ysgol gynradd a babanod ar wahân ac nid oedd yn golygu bod ysgolion babanod ac iau ar wahân yn cynnig y manteision hyn nawr.

Sesiwn cwestiwn ac ateb (C = cwestiwn, A = ateb, S = sylw)

C: Rydych yn dweud na wnaed penderfyni – pam fod yna 17 ardal ar gyfer adolygiad dechreuol ?

A: Wrth adolygu'r holl ysgolion hyn bu i ni eu hadolygu yng nghyd-destun yr hyn sy'n gwthio'r cynllun ymlaen ac felly rydym wedi edrych ar leoedd gwag, cost fesul disgybl ac adeiladau addas i'r pwrpas. Penderfynasom edrych ar faint o ysgolion babanod ac iau a oedd gennym mewn rhai ardaloedd. Grwpiwyd yr ysgolion hyn yn ardaloedd ac roedd gan rhai ardaloedd broblemau gyda nifer fawr o leoedd gwag a rhai gydag adeiladau hen iawn nad oedd yn cyrraedd y safon. Penderfynwyd y dylid ymgynghori â'r ardaloedd hyn yn gyntaf oherwydd y materion a godwyd. Yr unig reswm yr ydym yn ymgynghori â'r ardal hon yw ein bod yn gofyn i bob ardal gydag ysgolion babanod ac iau a oes angen dwy ysgol ar wahân, ac rydym wedi dod i Abergele heddiw i ofyn yr un cwestiwn.

C: Deiseb yma gan 370 o bobl yn dweud nad oes ganddynt eisiau cyfuno.

S: Bydd poblogaeth Abergele yn cynyddu oherwydd bod y cynllun datblygu lleol yn dweud y bydd tai fforddiadwy yn cael eu hadeiladu a bydd hyn yn cynyddu poblogaeth yr ysgol.

A: Rydym wedi edrych ar amcanion adeiladu wrth ystyried rhagamcanion disgyblion ond ar y funud nid yw'r ffigyrau hyn wedi'u cynnwys yn y ddogfen. Ni allwn ddefnyddio'r cynllun datblygu lleol i ddarparu rhagamcanion pendant gan na wyddom faint o dai fydd yn cael eu

hadeiladu neu a fydd teuluoedd o'r oed priodol yn symud i fyw iddynt. Fodd bynnag, rydym yn cymryd hyn i ystyriaeth.

C: Faint o arian sy'n rhaid i chi ei arbed mewn effeithlonrwydd ar gyfer cyllideb y flwyddyn nesaf ?

A: Mae'n rhaid i ni arbed 2% sy'n cyfateb i £1.4 miliwn.

C: Mae'r broses hon yn ymwneud ag arbed arian nid gwella safonau.

A: Mae'r broses yn ymwneud â gwella safonau o fewn y cyfyngiadau ariannol rydym yn canfod ein hunain ynddynt.

C: Ni fyddai cyfuno ysgolion babanod ac iau yn yr ardal hon yn arbed llawer o arian.

A: Byddai cyfuno yn creu rhyw gymaint o effeithlonrwydd, ond fel y dywedwch, ni fyddent yn fawr.

C: Pe bai'r ysgol yn cael ei chyfuno, byddai'n ei gwneud yn fwy amhersonol. Mae pennaeth pob ysgol yn adnabod pob plentyn ar y funud.

A: Deall hyn, ond fe all cyfuno gynnig mwy o amser i athrawon i ganolbwyntio ar addysg.

C: Mae'r ddwy ysgol yn gwneud yn dda yn nhermau gyrwyr pedwar cynllun, pam ydym o dan adolygiad dechreuol?

A: Fel y dywedwyd yn flaenorol, yn syml oherwydd ein bod yn trafod cyfuno babanod ac iau ymhob ardal yn y sir. Mae'n fater o gysondeb.

C: Mae'r ddwy ysgol eisoes yn cael llai o arian fesul disgybl na'r cyfartaledd Cymreig. Ni allwch ddefnyddio'r ysgolion hyn i arbed mwy o arian.

A: Nid ymarfer i arbed arian mo hyn, mae angen i ni ganfod ffyrdd o rannu cyllideb sy'n gostwng yn gynyddol. Mae rhai ardaloedd yn croesawu'r syniad o gyfuno'r babanod ac iau, ond os nad ydych yn cytuno, yna mae hynny yn iawn.

C: Felly gallem gadw'r ddwy ysgol?

A: Mae hyn yn bosibl.

C: Pam fod y gyllideb yn lleihau?

A: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ein darparu â chyllideb yn seiliedig ar boblogaeth. Wrth i'r boblogaeth ostwng, bydd yr arian a ddyrennir yn lleihau. Os nad ydych am newid yn yr ardal, yna byddwn yn cymryd hyn i ystyriaeth. Fodd bynnag, bydd y strategaeth yn blaenoriaethu'r ardaloedd hynny sydd eisiau newid er mwyn buddsoddi.

C: A yw pob ardal yn cael ei chymryd yn unigol neu a fydd beth sy'n digwydd yn un ardal yn digwydd yn un arall ?

A: Na, bydd pob ardal yn cael ei hystyried yn unigol.

S: Mae ysgolion eraill ble mae cost fesul disgybl yn uchel, dylid ystyried y rhain yn gyntaf.

S: Meddwl hefyd oherwydd ein canlyniadau arolwg hynod y bydd ein lleoedd gwag amcanedig yn gostwng.

A: Mae rhagamcanion disgyblion yn cael eu hadolygu'n flynyddol fel bod unrhyw newidiadau yn cael eu cymryd i ystyriaeth.

S: Byddai ysgol wedi'i chyfuno'n rhy fawr.

Rhoddodd DP gyflwyniad ar ddata ysgol benodol gan gynnwys gwybodaeth ar 'addas i'r pwrpas', lleoedd gwag a dalgylchoedd. Trwy ddod i Abergele, nid oedd yn golygu nad oedd y ddwy ysgol yn mynd i gael eu cyfuno'n bendant. Roedd gan rai ardaloedd ddiddordeb mewn cyfuno. Cyfeiriwyd at dudalen 10 y ddogfen Ardaloedd i'w Hadolygu a dywedwyd bod y ddwy ysgol yn cyflawni'r manteision. Nid yw tudalen 10 yn feirniadaeth o ysgolion na'r modd maent yn gweithredu nawr. Gallai'r modd mae tudalen 10 wedi'i

ysgrifennu edrych fel bod cyfuno ysgolion babanod ac iau yn strategaeth ond nid dyna'r achos ac ymddiheuraf am hyn. Daeth y rhestr hon o Dorfaen a chafodd ei gymeradwyo gan y Gweinidog Cymreig fel rhestr o fanteision posibl. Aeth DP trwy restr manteision posibl ysgolion babanod ac iau ar wahân:

- Ysgolion babanod ac iau yn canolbwyntio ar un cyfnod allweddol yn unig.
- Staff yn yr ysgolion hyn yn canolbwyntio eu haddysgu a dysgu yn benodol ar amrediad oed y disgyblion.
- Staff yn arbenigo ar un cyfnod allweddol a mynediad at gyfleoedd cyfnod allweddol penodol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.
- Llwybrau gyrfa staff yn fwy penodol.
- Babanod yn cael cyfleoedd cynyddol i dderbyn cyfrifoldeb.
- Buarth babanod ac iau ar wahân yn caniatáu chwarae perthnasol i oed a chyfleoedd datblygu.

Esboniwyd bod maint ysgol yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio fformiwla a ddarparwyd gan LlCC yn seiliedig ar arwynebedd llawr yr ysgol. Nid oedd arwynebedd llawr y dosbarth meithrin, os oes un, wedi'i gynnwys. Dim ond disgyblion llawn amser a ystyriwyd yn nhermau'r cyfrifo hwn.

Cyfeiriwyd at ragamcanion disgyblion a sut oedd yn cael ei gyfrifo – edrychwyd ar niferoedd y tair blynedd diwethaf a defnyddiwyd y cyfartaledd i ragamcanu niferoedd. Dros y 12 mlynedd diwethaf, mae amcanion pob ysgol wedi bod o fewn 1% i fod yn gywir. Adolygir rhagamcanion yn flynyddol. Nodwyd rhagamcanion tai a dywedwyd os byddai adeiladu sylweddol yn yr ardal o tua 2,000 – 5,000 o dai, y byddem yn gofyn i'r adeiladwr ddarparu ysgol newydd.

Cynhyrchwyd rhestr 'Addas i'r Pwrpas' trwy fwletin adeiladau ac awgrymiadau a gafwyd o'r cyfarfodydd dechreuol. Nid yw'n rhestr o hanfodion, ond pe bai ysgol newydd yn cael ei hadeiladu, byddai'n cynnwys yr holl agweddau hyn. Nodwyd bod y ddogfen yn gywir pan oedd yn cael ei hargraffu a byddai unrhyw newid ers hynny yn cael ei adlewyrchu yn y strategaeth ddrafft.

Gan gyfeirio at ddalgylch a phlant yn mynd y tu allan i'r dalgylch, dywedwyd bod nifer fawr yn mynd i Glan Morfa ar gyfer y Gymraeg felly nid oedd hyn yn effeithio ar ganrannau.

Sesiwn cwestiwn ac ateb (C = cwestiwn, A = ateb, S = sylw)

C: Bydd adeiladu arwyddocaol yn Abergele gan fod LlCC eisiau mwy o dai wedi'u cynnwys yn y CDLl. Beth sy'n digwydd wedyn?

A: Eisoes wedi dweud y byddai ysgol newydd yn cael ei hadeiladu pe bai 2,000 a mwy o dai yn cael eu hadeiladu ond byddai rhaid i ni hefyd gymryd i ystyriaeth effaith adeiladu ar raddfa lai ar ysgolion sydd eisoes yn bodoli.

C: Pe baech yn argymell i'r Cyngor na ddylem gyfuno, a all y Cabinet fynd yn erbyn yr argymhelliad?

A: Nid un ateb yn addas i bawb yw canlyniad y broses ac ni fyddwn yn cyflwyno hyn yn y ffordd hon i'r Cabinet. Fodd bynnag, fe all y Cabinet, fynd yn erbyn unrhyw un o'r argymhellion.

C: Dylech fod wedi cynnwys anfanteision cyfuno ar dudalen 10 hefyd.

C: Sut allwn ni fod yn siwr y bydd yr hyn rydym yn ei ddweud heddiw sef nad oes gennym eisiau cyfuno, yn cael ei cyflwyno i'r Cabinet.

A: Bydd nodiadau o'r cyfarfod hwn yn bwydo'n uniongyrchol i ddatblygiad y Strategaeth. Bydd y Cabinet hefyd yn gallu gweld nodiadau'r cyfarfod hwn a gweld cryfder y teimlad yn erbyn cyfuno.
C: A oes gennych unrhyw dystiolaeth o ganlyniadau ysgol a gyfunwyd.
A: Cyfunwyd ysgol babanod a iau i lunio ysgol fawr yn Llandrillo yn Rhos ac roedd y canlyniadau'n dda.
C: Mae'n rhaid i ni sicrhau bod y penderfyniad terfynol yn benderfyniad cywir.
A: Peidiwch â meddwl oherwydd ein bod yn gofyn i bob ysgol babanod a iau ynghylch cyfuno ein bod yn mynd i gyfuno'r cwbl ohonynt. Nid polisi ydyw ac rydym yn deall o'ch ymateb nad ydych am iddo ddigwydd yn eich ardal.
C: Dylech fod wedi rhestru anfanteision cyfuno gan fod rhoi manteision yn rhoi syniadau ym mhennau pobl.
C: A fydd ymgynghoriad pellach?
A: Bydd.

Esboniodd GT y gweithdy. Eisiau gwybod 'Beth sy'n gweithio'n dda ar y funud?' a 'Beth ellid ei wella?' Bydd yr hyn a ysgrifennir ar y ddalen yn cael ei nodi yn ogystal â'r nodiadau a'i roi ar y rhyngrwyd. Gallwch barhau i ddarparu ymateb hyd 30 Tachwedd trwy TJB neu Wasanaethau Addysg.

3. Ymateb o'r gweithdy

<u>Beth sy'n gweithio' dda nawr ?</u>

- Pob dim !
- Dwy ysgol ar wahân
- *Mae canlyniadau Estyn yn dweud y cwbl
- Gallu mynd at staff
- Ethos yr ysgol
- Cyllid - cost effeithiol
- Safonau dysgu wedi gwella
- Penaethiaid rhagweithiol
- Penaethiaid â gweledigaeth
- Penaethiaid sy'n ymateb
- Moral staff yn dda
- Plant wedi'u hysbrydoli
- Darpariaeth ar gyfer anghenion ychwanegol yn gweithio'n dda
- Barnwyd trosglwyddo rhwng ysgolion yn hynod

- Cafwyd 7 x 1 yn yr arolwg
- Ysgolion ar wahân
- Dau bennaeth
- Pob ysgol yn arbenigo yn eu maes h.y. cyfnod sylfaen, CA1, CA2
- Pob ysgol yn unigryw
- Cyfathrebu rhwng rhieni ac athrawon
- Cydraddoldeb £ fesul disgybl - y 15fed a'r 16eg ysgol fwyaf cost effeithiol yng Nghonwy
- Adnoddau wedi'u hanelu at un cyfnod – mae hyn yn effeithio ar safonau fel y dywed Estyn !
- PAM NEWID, GADAEL PETHAU FEL Y MAENT !
- 15 clwb ar ôl ysgol yn G.G. yn boblogaidd gyda llawer a cheisiadau i fynychu gan ysgolion cyfagos
- GG yn rhagweithiol wrth ddarparu cyfleoedd i gymryd cyfrifoldeb i ddatblygu hunan hyder a hunan werthuso o fewn eu dysgu: dau gwricwlwm amlwg sgiliau CCs (sgiliau gwaith sylfaen cwricwlwm 2008) + cyfnod sylfaen. Dim cynlluniau yn y dyfodol i'r rhain newid
- YGG – dywedodd Estyn "parhau i wneud yr hyn rydych yn ei wneud!"
- CBS i wneud penderfyniad yn seiliedig ar deilyngdod nid polisi
- Dylai barn rhanddeiliad effeithio ar bolisi nid goleuo polisi.
- Statws ysgol goleufa
- Dwy ysgol hynod – sut allwn wella?
- *Dangoswch i ni ysgol sydd wedi'i chyfuno sydd gyda'n canlyniadau ni !

<u>Beth ellid ei wella ?</u>

- Maint dosbarthiadau (nid Glan Gele yn gyffredinol)
- Adnoddau buarth (yn Sant Elfod yn arbennig)
- Arian fesul pen yn fwy teg nag ysgolion llai – graddfa disgybl/athro
- Parcio - oes!

- Gwell cysylltiadau â chynghorwyr lleol i'w galluogi i wneud penderfyniadau dysgedig

- Adnoddau ar ôl ysgol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol h.y. gweithwyr cefnogi

4. Sesiwn cwestiwn ac ateb terfynol (C = cwestiwn, A = ateb, S = sylw)

C: Mae aelodau lleol a'r aelod Cynulliad wedi gwneud y sylw eu bod o blaid cyfuno. Pam nad ydynt yma heno ?

A: Ymddiheurodd Aelod Cabinet Dysgu Gydol Oes am ei absenoldeb oherwydd llifogydd ger ei gartref. Gwahoddwyd aelodau'r tair ward ac mae Pennaeth Statudol Gwasanaethau Addysg wedi siarad yn uniongyrchol efo'r Aelod Cynulliad.

S: Mynegodd yr Aelod Cynulliad ei farn cyn y cyfarfod, mae angen i ni sicrhau bod aelodau Cabinet yn gwybod nad oes gennym eisiau i gyfuno ddigwydd.

A: Bydd y nodiadau hyn yn cael eu cyflwyno i'r rhai sy'n gwneud penderfyniad.

C: A fydd y strategaeth ddrafft yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru ? Beth yw'r meini prawf i gael arian Ysgolion 21 Ganrif ?

A: Methu rhoi ateb pendant ynghylch meini prawf arian Ysgolion 21 Ganrif gan nad yw LLCC wedi gorffen ei baratoi eto. Bydd y strategaeth derfynol yn cael ei defnyddio i gael arian ond ni fydd y strategaeth ddrafft yn cael ei chyflwyno i LlCC. Bydd y strategaeth derfynol yn dangos dewisiadau yn ogystal â'r dewis a ddymunir ac mae sawl ymgynghoriad i ddod.

C: Pryd fydd y strategaeth derfynol yn cael ei chyhoeddi ?

A: Hydref 2010 a bydd dyddiad gweithredu'r strategaeth yn cael ei benderfynu gan LlCC ond mae'n debyg mai mewn 5 -15 mlynedd y bydd yn cael ei gyflawni. Bydd y strategaeth yn blaenoriaethu gweithredu unrhyw newid a rhai ardaloedd sydd eisiau i newid ddigwydd felly byddant yn blaenoriaethu.

C: Sawl ardal sydd eisiau newid ?

A: Tua phump ar y funud a bydd y rhain yn cael eu rhoi yn y strategaeth gyntaf gan eu bod yn frwdfrydig ynghylch newid.

S: Dylai Aelod y Cynulliad fod wedi mynychu'r cyfarfod.

A: Rydym wedi cyfarfod yr Aelod Cynulliad ond ni chafodd ei wahodd yn uniongyrchol i'r cyfarfod. Fe wahoddwyd aelodau'r tair ward hefyd.

S: Nid yw Aelod y Cynulliad wedi clywed ein hochr ni o'r ddadl.

A: Bydd nodiadau'r cyfarfod yn cael eu rhoi ar y rhyngrwyd i bawb i'w gweld. Bydd yn cymryd tua mis iddynt ymddangos gan fod angen eu cyfieithu a'u rhoi ynghyd. Bydd nodiadau'r cyfarfod yn cael eu hanfon at y pennaeth cyn gynted ag y bo modd.

S: Ni chyflwynwyd manteision cyfuno heno.

Diolchodd DB i bawb am eu presenoldeb a'u cyfraniad a chafwyd llawer o wybodaeth bwysig. Unwaith eto llongyfarchodd GJ y ddwy ysgol ar ganlyniadau ardderchog arolwg Estyn.

Wal syniadau/pryderon

- Tai fforddiadwy yn Abergele = mwy o deuluoedd = mwy o blant
- "Addysg bersonol" yn cael ei golli mewn ysgol fawr
- Bydd rheini o "du allan i'r ardal" eisiau dod i'r ysgolion hyn oherwydd safonau
- Efallai nad yw tueddiadau hanesyddol yn berthnasol
- Deiseb o o leiaf 300 o enwau yn erbyn cyfuno
- Ysgolion mwy yn cael llai o arian fesul disgybl ! Rydym eisoes yn cael llai na'r cyfartaledd
- Ysgolion mwy a graddfa disgybl:athro uwch !
- A yw hyn yn deg i ddisgyblion ?
- Dylai aelodau Cabinet sy'n cymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau wneud eu hunain yn wybyddus i'r ysgol. Mae croeso iddynt ymweld
- Y pwynt sydd angen i mi i'w wneud yw buddsoddiad – nid buddsoddiad ariannol ond amser ! Mae'r plant eisoes yn cael hyn
- Byddai cyfuno yn creu problemau logistaidd gyda ffens a ffordd yn gwahanu'r adeiladau
- Data B yn anghywir – dim ond 12% o'r boblogaeth leol sydd ddim yn mynychu Sant Elfod nid 33% fel a nodwyd yn y ddogfen. Dogfen B braidd yn gamarweiniol
- Glan Gele efo ystafell TGC !
- Un pennaeth – dau adeilad ar wahân; dwy ystafell athrawon ar wahân; dwy arddull addysgu wahanol; dwy dderbynfa etc. Bydd bob amser yn cael ei weld fel dwy ysgol
- Pryder y bydd CBSC yn anwybyddu'r ymgynghoriad hwn ac yn gwthio'r newidiadau trwodd trwy benderfyniad gwleidyddol
- Un aelod o'r cyngor wedi bod yn chwarae'n barhaus efo'i ffôn symudol
- Pryder bod yr AC o blaid cyfuno cyn i'r ymgynghoriad gael ei orffen
- Os bydd ysgolion yn cael eu cyfuno a fydd canlyniadau Estyn yn parhau'n hynod pan fyddwn yn cael ein harolygu mewn chwe mlynedd